

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	22ain o Dachwedd 2016
<b>TEITL</b>	Cynllun Rheoli'r AHNE
<b>PWRPAS</b>	Ystyried y penodau drafft
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon i aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol er darparu diweddariad ar y gwaith o adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.
- 1.2 Yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod perthnasol, i baratoi cynllun rheoli ar gyfer yr AHNE ac i adolygu'r cynllun hwnnw bob 5 mlynedd.
- 1.3 Mae gan Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE rôl bwysig mewn cynorthwyo i baratoi y Cynllun Rheoli drwy roi sylwadau ac awgrymiadau.

## **2.0 RHAN 1 O'R CYNLLUN RHEOLI**

- 2.1 Mae Rhan 1 o'r Cynllun diwygiedig eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor am sylwadau.

## **3.0 RHAN 2**

- 3.1 Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi bod yn gweithio ar Ran 2 y Cynllun. Fel y nodwyd yn flaenorol bwriedir newid ychydig ar ddull Rhan 2 ar gyfer y Cynllun hwn gan greu rhannau/ penodau yn delio gyda gwahanol nodweddion (yn hytrach na gosod popeth gyda'i gilydd mewn un rhan fel yn y cynllun presennol). Hefyd bydd gwybodaeth gefndirol mewn dogfen atodol er gwneud y Cynllun yn haws i'w ddarllen a'i ddilyn.
- 3.2 Bydd pob pennod yn cynnwys cyflwyniad, dadansoddiad o'r nodweddion arbennig, pynciau llosg a pholisiau. Bwriedir cynnwys lluniau i adlewyrchu'r materion y cyfeirir atynt a gwneud y Cynllun yn fwy diddorol.
- 3.3 Bydd rhan olaf Rhan 2 yn cynnwys Cynllun Gweithredu, gyda gweithredoedd penodol yr anelir i'w cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 3.4 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adrannau ar Dirlun ac Arfordir a Mynediad a Mwynhad yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd yng Nghorffennaf 2016. Yn sgil y drafodaeth hynny bydd rahi newidiadau yn cael eu gwneud i'r penodau drafft.

3.5 Ar gyfer y cyfarfod hwn cyflwynir y penodau drafft ar y materion isod i sylw aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol. Mae'r penodau i'w gweld yn yr Atodiad.

- **Iaith a Diwylliant**
- **Yr Amgylchedd Hanesyddol**

3.6 Bydd y penodau ar y pynciau sydd yn weddill yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor.

#### **4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 I ystyried y penodau drafft sydd wedi eu hatodi.

4.2 I awgrymu newidiadau neu welliannau.